

**Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu De  
Cymru**

# **Crynodeb Blynyddol o Weithgarwch Craffu a Goruchwyllo**

**Ebrill 2020 –Ebrill 2021**



## Cyflwyniad

Mae gan Gomisiynydd yr Heddlu a Throseddau De Cymru ddyletswydd statudol a mandad etholiadol i ddwyn Heddlu De Cymru i gyfrif ar ran y cyhoedd. Mae'n gweithio i sicrhau bod yr heddlu'n gweithredu mewn modd effeithiol ac effeithlon drwy gydweithio â'r Prif Gwnstabl, gyda'r nod o ddarparu'r gwasanaeth heddlu gorau posibl i Dde Cymru.

Mae'r Comisiynydd yn defnyddio amrywiaeth o ffyrdd i sicrhau bod proses ffurfiol i graffu ar yr heddlu yn mynd rhagddi drwy gydol y flwyddyn. Yn ogystal â'r cyswllt wythnosol sydd ganddo â'r Prif Swyddogion yn yr heddlu, mae'r Comisiynydd yn cadeirio Bwrdd Strategol ar sail chwarterol. Bydd yn dwyn y Prif Gwnstabl i gyfrif yn ffurfiol mewn perthynas â lleihau troseddau, perfformiad yr heddlu, a chyflawni blaenoriaethau'r Cynllun Heddlu a Throseddau. Ceir rhagor o fanylion ar y trefniadau hyn yn y Llawlyfr Llywodraethu a'r Datganiad Llywodraethu Blynnyddol y cytunwyd arnynt ar y cyd.

Yn ogystal â'r Bwrdd hwn, mae'r Comisiynydd wedi sefydlu rhaglen graffu, sy'n golygu y gellir goruchwylio materion plismona a'r gallu i weithredu fel cyfaill beirniadol mewn modd manwl a pharhaus. Caiff y rhaglen ei chyflawni drwy amrywiaeth o grwpiau, cyfarfodydd a gweithgareddau, gyda'r diben o sicrhau y gellir cynnig her feirniadol ac adeiladol ac y gellir sicrhau gwelliannau cadarnhaol pan fo angen.

Yn ystod y pandemig, wynebodd y gweithgareddau craffu a gynlluniwyd heriau anochel. Fodd bynnag, ymatebodd y Comisiynydd a'r tîm drwy sicrhau y gallai gweithgarwch craffu barhau ar-lein, ac y gellid addasu'r rhaglen graffu a drefnwyd i ymgorffori proses o oruchwylio ymateb yr heddlu i'r pandemig. Effeithiodd nifer o ddigwyddiadau proffil uchel hefyd ar blismona yn ystod y flwyddyn, yn genedlaethol ac yn Ne Cymru. Arweiniodd hyn at ffocws ychwanegol sylweddol ar faterion cydlyniant cymunedol a chydarddoldeb a chynhwysiant o fewn rôl oruchwylio'r Comisiynydd.

**Mae'r crynodeb blynnyddol hwn yn amlinellu'r gweithgarwch a gynhaliwyd drwy'r rhaglen graffu yn y flwyddyn ariannol 2020-2021.**

## Y Bwrdd Craffu ac Atebolrwydd

Mae'r Bwrdd hwn yn cwrdd bob chwe wythnos a chaiff ei gadeirio bob yn ail gan Ddirprwy Gomisiynydd yr Heddlu a Throseddau a'r Prif Weithredwr. Mae pob cyfarfod

arall yn cynnwys pwnc 'at wraidd y mater' ar gyfer craffu, sy'n sicrhau y gellir cynnal dadansoddiad manwl o bwnc plismona penodol. Mae tîm y Comisiynydd yn sicrhau y gall asiantaethau partner, dioddefwyr troseddau, a'r cyhoedd ehangach, roi cymaint o adborth ag y bo modd. Nodir y pynciau at wraidd y mater a drafodwyd yn ystod 2020-21 isod.

## **Anghymesuredd Hiliol (Awst 2020)**

### Yr Hyn a Ystyriwyd

Casglwyd data'r heddlu ar gyfer amrywiaeth o faterion plismona a'u dadansoddi yn ôl ethnigrwydd. Yn ogystal, ceisiodd tîm y Comisiynydd safbwyntiau pobl ifanc Ddu ac Ethnig Leiafrifol ac asiantaethau partner sy'n gweithio â phobl ethnig leiafrifol. Bu'r tîm hefyd yn edrych ar hap ar fideos o stopio a chwilio a'r defnydd o rym, yn craffu ar gofnodion stopio a chwilio ac yn ystyried data ac ymchwil genedlaethol a dynnodd sylw at anghymesuredd hiliol mewn plismona a chanfyddiadau cyhoeddus o bwerau plismona.

### Materion a Nodwyd

Y materion allweddol a gododd yn ystod y gwaith o fynd at wraidd y mater oedd:

- Bod anghymesuredd hiliol yn bodoli o hyd mewn amrywiaeth o arferion yr heddlu, a ddangoswyd yn y data sydd ar gael.
- Bod bylchau mawr yn y data sydd ar gael ar ethnigrwydd, a'i bod yn ymddangos bod hyn yn gwaethygu. Ei bod yn anodd adolygu a deall graddau anghymesuredd hiliol yn rheolaidd, oherwydd y prinder cofnodion ethnigrwydd.
- Bod cyfraddau anghymesuredd stopio a chwilio a 'defnydd o rym' yn cynyddu, yn enwedig y defnydd o ynnau taser ar bobl Ddu a Hil gymysg.
- Bod cyfraddau boddhad dioddefwyr yn is ymysg pobl Ddu ac Ethnig Leiafrifol, ynghyd â chyfraddau'r canlyniadau troseddau ar gyfer pobl Ddu.
- Bod nifer mawr o bobl ifanc ethnig leiafrifol yn teimo bod gwahaniaethu a stereoteipio ar sail hil yn y modd y cynhaliwyd ymarferion stopio a chwilio.
- Bod llawer o bobl ifanc ethnig leiafrifol yn teimlo'n ddryslyd ynghylch y sefyllfa stopio a chwilio, ac nad ydynt bob amser yn deall y jargon cyfreithiol a ddefnyddiwyd neu'r rhesymau dros y chwilio.
- Bod y mwyafrif o'r bobl ifanc ethnig leiafrifol y siaradwyd â nhw yn cytuno bod stopio a chwilio yn ffordd ddefnyddiol a dilys o fynd i'r afael â throseddau difrifol, ond eu bod yn ofni ei bod yn cael ei defnyddio'n amlach gan fod cynnydd yn nifer y troseddau cyllyll. Roedd pryderon y gallai hyn gynyddu stereoteipio ar sail hil.

- Bod angen gwella recordiadau o gamerâu fideo a wisgir ar y corff o achosion o stopio a chwilio. Nid oedd pob achos yn cael ei ffilmio yn ei gyfanrwydd.
- Bod y mwyafrif o'r recordiadau stopio a chwilio ac o gamerâu fideo a wisgir ar y corff yn tueddu i ddangos bod chwiliadau'n cael eu cynnal yn gyfreithlon ar sail resymol. Gallai ymddangos bod rhai achosion wedi'u llywio'n ormodol gan broses, a allai effeithio ar y rhyngweithio.
- Bod Heddlu De Cymru yn parhau i dangynrychioli ei boblogaeth Pobl Ddu, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol yn yr ardal, a bod hyn wedi'i nodi gan gymunedau ethnig leiafrifol a oedd yn teimlo y byddai mwy o amrywiaeth gweledol yn gwella ymddiriedaeth yn yr heddlu.
- Bod nifer o faterion anghymesuredde parhaus yn peri pryder amlwg a bod parodrwydd ac ymdeimlad o frys i fynd i'r afael â'r rhain drwy Gynllun Cydraddoldeb Hiliol newydd ar y Cyd.

### Argymhellion Tîm y Comisiynydd

Gwnaed nifer o argymhellion i'r heddlu ar ôl y gwaith o fynd at wraidd y mater, gan gynnwys:

- Y dylid mynd i'r afael â materion ansawdd data ethnigrwydd a bylchau mewn cofnodion ar systemau'r heddlu.
- Y dylid ystyried sut i wella cyfrannau'r bobl Ddu, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol mewn arolygon boddhad dioddefwyr ac arolygon ymgynghori perthnasol eraill er mwyn cael darlun o brofiad uniongyrchol ac adborth gymaint â phosibl.
- Y dylid adolygu'r ffordd yr eir i'r afael ag iaith a chyfathrebu mewn hyfforddiant stopio a chwilio er mwyn sicrhau y gellir rhyngweithio'n briodol ac yn gymesur.
- Y dylid gwneud gwaith i adolygu'r defnydd o dderbynebau a cheisio adborth yn dilyn achosion o stopio a chwilio.
- Y dylid monitro cydymffurfiaeth stopio a chwilio o ran camerâu fideo a wisgir ar y corff yn barhaus, gan sicrhau bod yr holl achos yn cael ei recordio.

### **Ymgysylltu â Chymunedau (Tachwedd 2020)**

#### Yr Hyn a Ystyriwyd

Ystyriwyd strategethau a dulliau'r heddlu ar gyfer ymgysylltu â chymunedau ym mhob rhan o'r heddlu. Ystyriodd Tîm y Comisiynydd gwmpas yr ymgysylltu hwn, gan gynnwys ei hygyrchedd, ynghyd â chyfansoddiad ac amrywiaeth y rheini yr ymgysylltwyd â nhw. Ystyriodd y tîm y modd yr oedd yr heddlu'n gweithio er mwyn deall ei gymunedau, ac ystyriodd effaith prosesau ymgysylltu'r heddlu a'r modd yr oedd adborth gan yr heddlu wedi arwain at newid mewn arferion neu bolisïau.

## Materion a Nodwyd

Y materion allweddol a gododd yn ystod y gwaith o fynd at wraidd y mater oedd:

- Bod nifer o ddulliau ar waith i fonitro demograffeg poblogaeth De Cymru a bod y rhain yn cael eu defnyddio i dargedu dulliau cyfathrebu'r heddlu yn ôl yr angen.
- Bod pandemig COVID-19 wedi arwain at ddatblygu ffyrdd newydd o ymgysylltu, yr oedd llawer ohonynt wedi arwain at niferoedd cadarnhaol o ymgysylltu â'r heddlu.
- Bod porth gweithgarwch ymgysylltu wedi'i ddatblygu yn yr heddlu i alluogi swyddogion i gofnodi gweithgarwch ymgysylltu cymunedol unigol a chanlyniadau. Roedd hwn yn adnodd defnyddiol ond ni wnaed llawer o ddefnydd ohono ac nid oedd wedi'i fandadu.
- Bod tensiynau yn y gymuned yn cael eu monitro a'u hadolygu'n rheolaidd ym mhob rhan o'r heddlu a bod materion a bygythiadau cymunedol newydd yn cael eu hystyried ym mhob rhan o'r heddlu.
- Bod Arolwg Troseddau Cymru a Lloegr yn dangos gostyngiad yn hyder y cyhoedd o ran plismona yn ardal yr heddlu. Roedd cynlluniau ar waith i ymgynghori ar ganfyddiadau a hyder y cyhoedd yn y flwyddyn i ddod.
- Bod gwaith yn cael ei arwain gan dîm y Comisiynydd mewn partneriaeth â'r heddlu er mwyn gwella dulliau o ymgysylltu â phobl ifanc drwy fenter 'Lleisiau Ifanc'. Roedd hyn yn galluogi pobl ifanc i rannu eu safbwyntiau ar blismona mewn amgylchedd cyfforddus a gyda'u cyfoedion.

## Argymhellion Tîm y Comisiynydd

Gwnaed nifer o argymhellion i'r heddlu ar ôl y gwaith o fynd at wraidd y mater, gan gynnwys:

- Bod angen sefydlu'r modd y caiff tueddiadau a materion a nodwyd drwy ymgysylltu â chymunedau eu casglu a'u hadolygu'n rheolaidd ym mhob rhan o'r heddlu er mwyn gwneud y gorau o'r hyn a ddysgir.
- Y dylid sefydlu dulliau gwell o fesur effeithiolrwydd a chanlyniadau gweithgarwch ymgysylltu cymunedol ym mhob rhan o'r heddlu.
- Y dylid targedu canlyniadau achosion cadarnhaol a mentrau cadarnhaol i gymunedau er mwyn annog hyder ac arferion adrodd.
- Y dylid archwilio'r gostyngiad a gofnodwyd yn hyder y cyhoedd ymhellach a datblygu cynigion i fynd i'r afael â hyn.

## Cynrychiolaeth pobl o gefndir Du, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol yn Heddlu De Cymru (Chwefror 2021)

### Yr Hyn a Ystyriwyd

Ar gyfer y gwaith hwn o fynd at wraidd y mater, ystyriodd tîm y Comisiynydd ddata a strategaethau cyflogaeth a recriwtio, ynghyd â safbwyntiau staff ethnig leiafrifol sy'n gweithio i Heddlu De Cymru. Yn ogystal, cynhaliwyd grwpiau ffocws â swyddogion a staff yn gweithredu fel Hyrwyddwyr Datblygu gweithlu cynrychioliadol, a gyda detholiad ar hap o swyddogion a staff yn fewnol. Nod hyn oedd canfod lefel yr ymwybyddiaeth fewnol a deall yr angen i gymryd camau cadarnhaol i fynd i'r afael â'r dangynrychiolaeth o bobl ethnig leiafrifol yn yr heddlu ac i weld lle y gellid gwneud gwelliannau.

### Materion a Nodwyd

Y materion allweddol a gododd yn ystod y gwaith o fynd at wraidd y mater oedd:

- Bod swyddogion ethnig leiafrifol a oedd wedi cael eu recriwtio drwy'r rhaglen gweithlu cynrychioliadol yn siarad yn gadarnhaol am eu profiadau o'r rhaglen a'u bod yn teimlo eu bod wedi cael cymorth da.
- Bod llawer o'r farn bod y rhaglen bresennol yn hyrwyddo rolau swyddogion yr heddlu i'r cyhoedd yn fwy o lawer na rolau staff yr heddlu ac y gallai hyn fod yn atal cymunedau Pobl Ddu ac Ethnig Leiafrifol rhag deall y cyfleoedd cyflogaeth ehangach sydd ar gael.
- Bod y cynllun Hyrwyddwr Datblygu mewnol, a oedd yn galluogi aelodau gwirfoddol o'r heddlu i helpu pobl ethnig leiafrifol i wneud cais am rolau yn yr heddlu, yn cael effaith gadarnhaol. Fodd bynnag, gallai'r cynllun gael budd o ailbennu ffocws er mwyn sicrhau'r effeithiolrwydd a'r effeithlonrwydd gorau.
- Bod angen adolygu'r ymgyrchoedd Cysylltiadau mewnol ac allanol presennol sy'n gysylltiedig â'r broses o recriwtio pobl Ddu, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol. Roedd angen buddsoddiad er mwyn sicrhau bod hyn yn cael ei ystyried yn flaenoriaeth a bod gwybodaeth gywir a defnyddiol yn cael ei darparu. Roedd hyn yn cynnwys yr angen i Heddlu De Cymru 'werthu' ei hun yn well i gymunedau ethnig leiafrifol.
- Bod nifer y swyddogion a'r staff o leiafrifoedd ethnig yn gwella bellach, ac felly bod angen ymrwymiad mwy gweledol i'w cadw a sicrhau eu bod yn gwneud cynnydd.
- Nad oedd yn glir pa mor rheolaidd na pha mor effeithiol roedd y rhaglen gweithlu cynrychioliadol yn cael ei gwerthuso a'i hadolygu, ac felly y gellid colli cyfleoedd i gyflwyno newidiadau a gwelliannau.
- Bod y tîm sy'n gweithio ar hyn o bryd i wella'r gynrychiolaeth o bobl ethnig leiafrifol yn yr heddlu yn ymrwymedig iawn. Fodd bynnag, nid oedd yn debygol y byddai dibyniaeth barhaus ar y tîm yn unig yn arwain at

ganlyniadau cynaliadwy. Roedd angen i rywfaint o'r gwaith gyd-fynd yn agosach â model Adnoddau Dynol ehangach.

- Bod angen i'r iaith a'r dulliau adrodd a ddefnyddir wrth recriwtio pobl ethnig leiafrifol fod yn fwy penodol. Nid ystyriwyd bod y defnydd o'r term 'BAME' yn ddefnyddiol gan nad oedd yn dadansoddi cynrychiolaeth a thangynrychiolaeth yn ddigonol, a gallai hyn gyflwyno darlun ystumiedig.

### Argymhellion Tîm y Comisiynydd

Gwnaed nifer o argymhellion i'r heddlu ar ôl y gwaith o fynd at wraidd y mater, gan gynnwys:

- Y dylai tîm yr heddlu a thîm y Comisiynydd ddod ynghyd i ddiwygio'r Strategaeth Recriwtio a Chynnydd ar gyfer Pobl Ddu, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol yn unol â chanfyddiadau'r gwaith craffu.
- Dylid rhoi blaenoriaeth i'r gwaith parhaus o fonitro a chraffu ar y maes hwn, ynghyd â monitro Cynllun Cydraddoldeb Hiliol ar y Cyd.

### **Gwaith Craffu Ychwanegol gan y Bwrdd**

Yn ogystal â phynciau mynd at wraidd mater, cynhaliodd y Bwrdd Craffu ac Atebolrwydd waith craffu ar faterion plismona eraill yn ystod 2020/21. Roedd hyn yn cynnwys:

#### Technoleg Adnabod Wynebau yn Awtomatig (AFR)

Cafodd y Bwrdd y wybodaeth ddiweddaraf ar y defnydd o AFR ym mhob rhan o'r heddlu, gan gynnwys y gwaith parhaus i asesu effaith AFR ar gydraddoldeb er mwyn sefydlu a oedd unrhyw ragfarn yn bodoli yn y dechnoleg. Rhoddwyd y wybodaeth ddiweddaraf i'r Bwrdd am gynlluniau i brofi'r dechnoleg a phwysleisiodd tîm y Comisiynydd yr angen i ymgysylltu â chymunedau yn ystod y gwaith hwn.

#### Y Driniaeth a Roddir i Unigolion a Gedwir yn y Ddalfa

Ystyriodd y Bwrdd ganfyddiadau gwaith tîm y Comisiynydd o fonitro gwasanaethau'r ddalfa yn ystod cyfyngiadau symud COVID-19. Yn ogystal â chanfyddiadau gwirfoddolwyr Cynllun Ymwelwyr Annibynnol â Dalfeydd, ystyriodd y Bwrdd ganfyddiadau Rheolwr y Cynllun a oedd wedi gwneud galwadau ffôn dirybudd i ddalfeydd ac wedi bwrw golwg ar hap ar gofnodion dalfeydd electronig drwy gydol y cyfnod. Er y canfuwyd bod y driniaeth gyffredinol a roddir i unigolion a gedwir yn y ddalfa yn ardderchog, gwnaed rhai argymhellion mewn perthynas ag anghenion crefyddol a chynhyrchion mislif, gyda'r angen i wella gwaith cofnodi data yn y meysydd hyn.

#### Dealltwriaeth Fewnol o Faterion Cydraddoldeb Hiliol

Rhoddwyd y wybodaeth ddiweddaraf i'r Bwrdd ar gynnydd mewn perthynas â'r sesiynau 'Beth am Siarad am Hil' a gynhelir â swyddogion a staff ym mhob rhan o'r

heddlu. Rhoddodd hyn gipolwg ar y ddealltwriaeth fewnol o faterion fel gwahaniaethu ar sail hil, hiliaeth a braint pobl wyn. Trafodwyd y canfyddiadau er mwyn cyfrannu at y broses o ddatblygu blaenoriaethau ac ymrwymadau'r Cynllun Cydraddoldeb Hiliol ar y Cyd.

### Y Broses o Fynd i'r Afael â Thensiynau Cymunedol Iledled De Cymru

Trafododd y Bwrdd y modd yr oedd yr heddlu'n gweithio gyda chymunedau er mwyn mynd i'r afael â thensiynau a gododd o ddigwyddiadau penodol yn ystod y flwyddyn. Roedd hyn yn cynnwys tîm y Comisiynydd gan bwysleisio'r angen am ddull cyfathrebu cynnar a gonest â chymunedau, a phwysigrwyd gwranddo ar adborth o'r gymuned.

### **Grŵp Atebolrwydd a Dilysrwydd yr Heddlu (PALG)**

Caiff PALG ei gadeirio gan Brif Weithredwr y Comisiynydd. Mae'r grŵp yn cwrdd bob chwarter ac mae'n cynnwys sefydliadau partner allanol ac aelodau cymunedol annibynnol sy'n helpu tîm y Comisiynydd i roi safbwynt cyfaill beirniadol o berfformiad ac arferion yr heddlu.

Yn ystod 2020, cafodd cyfanswm o chwe aelod cymunedol annibynnol eu recriwtio i'r grŵp, yn dilyn proses hysbysebu agored. Roedd yr aelodau newydd yn gallu rhoi mewnbwn a chyngor annibynnol, gan ychwanegu at aelodaeth bresennol sefydliadau partner mewn modd cadarnhaol.

Yn ystod 2020/21, ystyriodd y grŵp nifer o faterion, gan gynnwys:

#### Ymateb yr Heddlu a Phartneriaid i COVID-19

Trafododd y grŵp y modd yr oedd Heddlu De Cymru yn ymateb i ddigwyddiadau ac yn rheoli dioddefwyr yn ystod cyfyngiadau COVID-19. Ystyriodd yr aelodau hefyd y modd yr oedd gwasanaethau a gomisiynwyd yn gweithredu a llwyddwyd i gwestiynu natur y gwasanaethau a ddarperir er mwyn cael sicrwydd bod anghenion dioddefwyr yn parhau i gael eu diwallu.

#### Adnabod Wynebau yn Awtomatig (AFR)

Ystyriodd y grŵp y gwaith parhaus o sicrhau bod AFR yn cael ei brofi am ragfarn a chafodd yr aelodau'r wybodaeth ddiweddaraf am y penderfyniadau cyfreithiol ynghylch y defnydd o AFR.



### Amcanion Cydraddoldeb Heddlu De Cymru

Cyflwynwyd yr amcanion cydraddoldeb a nodir yn y Cynllun Cydraddoldeb ar y Cyd i'r grŵp er mwyn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf iddynt am gynnydd ac er mwyn iddynt allu cwestiynu unrhyw faterion a oedd yn codi.

### Anghymesuredd Hiliol

Yn ystod y flwyddyn, nododd a chwestiynodd y grŵp amrywiaeth o feysydd lle'r oedd anghymesuredd hiliol yn bodoli a llwyddwyd i gwestiynu'r modd yr aed i'r afael â'r rhain. Ymysg yr enghreifftiau roedd y cyfraddau anghymesur o Hysbysiadau Cosb Benodedig a roddir i bobl Ddu ac Ethnig Leiafrifol am dorri rheolau COVID-19, ac anghymesuredd parhaus o ran stopio a chwilio.

### Y Strategaeth i Ddiodefwyr a Thriniaeth Dioddefwyr Troseddau

Cafodd y cynigion yn y Strategaeth ddrafft i Ddiodefwyr ar gyfer De Cymru eu rhannu â'r grŵp. Roedd yr aelodau yn gallu rhoi sylwadau annibynnol er mwyn llywio'r cynigion ymhellach.

### Prosesau Cwyno'r Heddlu

Ystyriodd y grŵp y gofynion ar yr heddlu yn sgil cwynion a'r duedd tuag at gynnydd yn nifer y cwynion a chwynion sy'n codi dro ar ôl tro. Ystyriodd yr aelodau gynigion yr heddlu ar reoli cwynion plagus ac roeddent yn cytuno â nhw.

### Tensiynau Cymunedol a Chydlyniant Cymunedol

Yn ystod y flwyddyn, cafodd y grŵp y wybodaeth ddiweddaraf am deimladau a thensiynau yn y gymuned a gododd o ddigwyddiadau penodol a oedd wedi arwain at ddiffyg ymddiriedaeth a hyder yn y modd yr oedd rhai cymunedau'n cael eu plismona. Cwestiynodd y grŵp yr heddlu ar y modd yr aed i'r afael â hyn a chawsant gyfle i gyflwyno eu safbwyntiau ar yr hyn y gellid ei wneud i leddfau tensiynau.

## **Cyd-bwyllgor Moeseg Annibynnol**

Caiff y pwyllgor hwn ei redeg ar y cyd gan y Comisiynydd a'r Prif Gwnstabl. Mae'n cynnwys aelodau annibynnol allanol ac mae ganddo gadeirydd annibynnol. Mae'r pwyllgor yn cwrdd bob chwarter ac yn trafod yr heriau moesegol sy'n wynebu'r heddlu, gyda'r nod o gynnig barn annibynnol. Yn ystod 2020-21, roedd y materion a ystyriwyd yn cynnwys:

### Gorfodi Cyflymder Traffig

Trafododd y pwyllgor gefnogi'r safbwynt ar orfodi cyfyngiadau cyflymder traffig at ddibenion amgylcheddol. Roedd hwn yn safbwynt plismona gwahanol ar orfodi

cyflymder, lle byddai camau gorfodi fel arfer yn cael eu cymryd am resymau'n ymwneud â phobl sy'n cael eu hanafu o ganlyniad i oryrru. Roedd materion sensitif ynghylch safbwyntiau cenedlaethol a gwleidyddol gwahanol, ynghyd ag angen i ystyried canfyddiadau cyhoeddus ynghylch newid mewn polisi plismona. Ar ôl trafod, roedd y pwyllgor o'r farn, er bod rhesymau amgylcheddol dros leihau cyflymder yn bwysig o ran iechyd y cyhoedd, bod angen rhoi blaenoriaeth i addysgu a gwneud gwaith partneriaeth ar y mater dros gamau gorfodi gan yr heddlu.

### Defnyddio Cynhyrchion CBD

Cynhaliwyd trafodaethau ar argaeledd cynhyrchion cannabidiol (CBD) ar-lein ac mewn siopau iechyd at ddibenion meddygol. Cydnabuwyd y gallai fod gan rai aelodau o'r cyhoedd safbwynt negyddol ynghylch staff yr heddlu sy'n defnyddio'r cynhyrchion hyn. Fodd bynnag, roedd yn amlwg bod y cynhyrchion yn gyfreithlon, ac na fyddent yn dylanwadu ar ymddygiad nac yn dangos mewn profion. Cytunodd y pwyllgor y dylai staff yr heddlu allu gwneud dewis personol i ddefnyddio cynhyrchion o'r fath ynghyd â gweddiill y cyhoedd ac na fyddai angen cyfathrebu â'r heddlu mewn perthynas â hyn.

### Defnyddio Camerâu Fideo a Wisgir ar y Corff mewn Cyfweiliadau Trais Rhywiol

Trafododd y pwyllgor y materion sensitif ynghylch camerâu fideo a wisgir ar y corff mewn cyfweiliadau trais rhywiol. Roedd polisi cenedlaethol a pholisi'r heddlu yn nodi na ellid defnyddio hyn mewn cyfweiliadau cychwynnol â dioddefwyr. Cyflwynwyd y cyfyng-gyngor moesegol a fyddai swyddog yn dymuno recordio mewn achosion lle'r oedd wedi cael cydsyniad y dioddefwr a'i fod o'r farn y gallai helpu i gasglu tystiolaeth ar gyfer erlyniad - gan fynd yn groes i'r polisi. Trafododd y pwyllgor ddwy ochr y mater ac ni lwyddodd i ddod i gytundeb uniongyrchol ar ganlyniad. Trafodwyd y mater ymhellach yn fewnol yn ddiweddarach ar gais y pwyllgor a chafodd ei ailgyflwyno i'r pwyllgor. Yn y pen draw, cyngor y pwyllgor oedd na ddylid gwisgo camerâu fideo a wisgir ar y corff yn y cyd-destun hwn.

## **Y Cyd-bwyllgor Archwilio**

Mae'r pwyllgor hwn yn gweithredu ar y cyd rhwng y Comisiynydd a'r heddlu. Mae'n cynnwys aelodau annibynnol, ac mae ganddo gadeirydd annibynnol. Mae'r pwyllgor yn cynnig swyddogaeth oruchwylio a monitro, yn benodol mewn perthynas â materion ariannol ac archwilio. Yn ystod 2020-21, roedd y materion a ystyriwyd yn cynnwys:

- Cyflwyno cyfrifon
- Datganiad Llywodraethu Blynnyddol
- Adroddiadau archwilio a dderbyniwyd mewn perthynas â Heddlu De Cymru a'r Comisiynydd

- Adroddiadau ac argymhellion gan Arolygiaeth Cwnstablïaeth a Gwasanaethau Tân ac Achub Ei Fawrhydi
- Cofnodion risgiau, ansicrwydd a materion yr heddlu.

## Gwaith Goruchwylio a Chraffu Arall

Yn ogystal â'r gwaith craffu a wneir drwy Fyrddau a grwpiau a amlinellir yn yr adroddiad hwn, gwnaed gwaith goruchwylio a monitro ychwanegol gan dîm y Comisiynydd yn ystod y flwyddyn. Roedd hyn yn cynnwys mynychu 'Paneli Craffu ar Ddatrysiadau y Tu Allan i'r Llys', lle cafodd detholiad o achosion troseddol a oedd wedi cael eu datrys y tu allan i'r llys eu hystyried o ran tegwch a phriodolrwydd.

Hefyd, cafodd cwynion cyhoeddus a wnaed i Heddlu De Cymru eu hasesu ar hap gan y tîm, er mwyn sicrhau bod yr heddlu'n ystyried yr achosion mewn modd priodol a theg a'i fod yn defnyddio dulliau priodol i ymchwilio iddynt. Adolygwyd recordiadau o gamerâu fideo a wisgir ar y corff gan swyddogion yr heddlu gan y tîm fel y gellid asesu achosion o stopio a chwilio a'r defnydd o rym yn annibynnol o ran priodolrwydd a thegwch. Hefyd, cafodd ffurflenni stopio a chwilio a'r defnydd o rym a gwblhawyd gan swyddogion eu hasesu o ran cywirdeb a thegwch.

Yn olaf, fel rhan o gynlluniau wrth gefn COVID-19 ar gyfer Ymwelwyr Annibynnol â Dalfeydd, cynhaliodd y tîm nifer o wiriadau ar hap o gofnodion dalfeydd yn ystod y flwyddyn er mwyn sicrhau cydymffurfiaeth â phrosesau dalfeydd a bod unigolion a gedwir yn y ddalfa yn cael eu trin yn deg.

## Casgliadau

Mae'r gwaith goruchwylio a chraffu a wnaed yn ystod 2020-21 wedi arwain at nifer o argymhellion, y mae Heddlu De Cymru yn ymrwymedig i weithio tuag atynt lle y bo'n bosibl. Bydd gwaith parhaus i fonitro ac adolygu cynnydd yn parhau o fewn rhaglen graffu'r Comisiynydd ar gyfer 2021-22. Mae blaenraglen waith yn mynd rhagddi, ynghyd ag adolygiad o'r gwersi a ddysgwyd o'r flwyddyn ddiwethaf.

Mae'r Comisiynydd a'i dîm yn ymrwymedig i sicrhau bod gwaith craffu Heddlu De Cymru yn weithgarwch teg a chadarnhaol, sydd â'r nod o nodi arferion da lle y bo modd, ac o herio'r heddlu mewn modd cymesur pan fo'n briodol a lle gellir gwneud gwelliannau ar ran y cyhoedd.

Diolch i'r dioddefwyr troseddau, i aelodau'r cyhoedd, asiantaethau partner a chynghorwyr annibynnol sydd wedi cyfrannu'n helaeth at y gwaith craffu a goruchwylio yn ystod y flwyddyn.

I gael rhagor o wybodaeth am eich Comisiynydd,  
dilynwch ni:



/commissionersw

[www.southwalescommissioner.org.uk](http://www.southwalescommissioner.org.uk)

Neu cysylltwch â ni drwy:



[commissioner@south-  
wales.police.uk](mailto:commissioner@south-wales.police.uk)



01656 869 366



Gorsaf Heddlu y Bont-faen,  
West Gate,  
Y Bont-faen,  
CF71 7AR

**Rydym yn croesawu gohebiaeth yn Gymraeg a  
Saesneg**

**Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg**